OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 394 (Cy.53)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiadau Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*25 Chwefror 2003*
Yn dod i rym - -	*1 Mawrth 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol, ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, gan adrannau 173(10)(**1**), 174(4), 175(1), a 336(1)(**2**) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**3**) ac adrannau 39(4), 40(1), 42(5) a 91(1)(**4**)) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(**5**) a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

RHAN 1

ENWI, CYCHWYN, CYMHWYSO A DEHONGLI

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiadau Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2003 a byddant yn dod i rym ar 1 Mawrth 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Dehongli

2. Yn y rheoliadau hyn:

(**1**) Amnewidiwyd adran 173 gan adran 5(1) o Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991 (p.34).
(**2**) Mae adran 336(1) yn darparu'r diffiniad o "prescribed".
(**3**) 1990 p.8; trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 173(10), 174(4), a 175(1), mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672) ac Atodlen 1 iddo ac maent, i'r graddau eu bod yn arferadwy yng Nghymru, wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 4 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000/253 (Cy.5)) ac Atodlen 3 iddo.
(**4**) Mae adran 91(1) yn darparu'r diffiniad o "prescribed".
(**5**) 1990 p.9; mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 39(4), 40(1) a 42(5), i'r graddau eu bod yn arferadwy yng Nghymru, wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672) ac Atodlen 1 iddo.

"awdurdod cynllunio lleol" ("*local planning authority*") yw'r corff sy'n cyhoeddi'r hysbysiad gorfodi perthnasol;

"y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

"y Ddeddf Adeiladau Rhestredig" ("*the Listed Buildings Act*") yw Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990;

"y Ddeddf Gynllunio" ("*the Planning Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; a

"hysbysiad gorfodi" ("*enforcement notice*") yw hysbysiad a gyhoeddir o dan adran 172(1)(**6**) o'r Ddeddf Gynllunio neu adran 38(1) o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig.

RHAN 2

HYSBYSIADAU GORFODI O DAN ADRAN 172

Materion ychwanegol i'w nodi mewn hysbysiad gorfodi

3. Rhaid i hysbysiad gorfodi a ddyroddir o dan adran 172 o'r Ddeddf Gynllunio nodi—

(a) y rhesymau pam y mae'r awdurdod cynllunio lleol o'r farn ei bod yn briodol dyroddi'r hysbysiad;

(b) pob polisi a chynnig yn y cynllun datblygu sy'n berthnasol i'r penderfyniad i gyhoeddi hysbysiad gorfodi; a

(c) union ffiniau'r tir y mae'r hysbysiad yn berthnasol iddo, boed drwy gyfeirio at blan neu fel arall.

Nodyn esboniadol i'w anfon gyda chopi o'r hysbysiad gorfodi

4. Rhaid i bob copi o hysbysiad gorfodi a gyflwynir gan awdurdod cynllunio lleol o dan adran 172(2) o'r Ddeddf Gynllunio gael ei anfon gyda nodyn esboniadol a rhaid i hwnnw gynnwys yr hyn a ganlyn—

(a) copi o adrannau 171A, 171B a 172 hyd 177 o'r Ddeddf Gynllunio, neu grynodeb o'r adrannau hynny gan gynnwys y wybodaeth ganlynol—

(i) bod hawl apelio i'r Cynulliad Cenedlaethol yn erbyn yr hysbysiad gorfodi hwnnw;

(ii) bod modd gwneud apêl dim ond drwy roi hysbysiad ysgrifenedig o'r apêl i'r Cynulliad Cenedlaethol cyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad gorfodi fel y dyddiad y bydd yn effeithiol arno neu drwy anfon hysbysiad o'r fath i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn llythyr wedi'i gyfeirio yn gywir, y talwyd am ei gludiant ymlaen llaw, ac sydd wedi'i bostio iddo ar y fath amser fel, yn ôl gwasanaeth arferol y post, y byddai'n cyrraedd cyn y dyddiad hwnnw;

(iii) ar ba seiliau y gellid gwneud apêl o dan adran 174 o'r Ddeddf Gynllunio;

(iv) y ffi i'w thalu o dan rheoliad 10 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) 1989(**7**) am y cais tybiedig am ganiatâd cynllunio i'r datblygiad yr honnir iddo dorri'r rheolaeth gynllunio yn yr hysbysiad gorfodi;

(b) hysbysiad bod rhaid i apelydd anfon i'r Cynulliad Cenedlaethol, naill ai wrth roi rhybudd o apêl neu o fewn 14 diwrnod ar ôl y dyddiad y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn anfon

(**6**) Amnewidiwyd adran 172(1) gan adran 5(1) o Ddeddf Cynllunio ac Iawndal Deddf 1991 (p.34).
(**7**) O.S. 1989/193, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1991/2735 ac y mae diwygiadau eraill iddynt nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

hysbysiad at yr apelydd yn gwneud hynny'n ofynnol, ddatganiad ysgrifenedig sy'n nodi'r seiliau y mae'r apelydd yn apelio arnynt yn erbyn yr hysbysiad gorfodi gan ddatgan yn gryno'r ffeithiau y mae'r apelydd yn bwriadu dibynnu arnynt i gefnogi pob un o'r seiliau hynny; ac

(c) rhestr o enwau a chyfeiriadau y personau y mae copi o'r hysbysiad gorfodi wedi'i gyflwyno iddynt.

RHAN 3

APELAU

Datganiad o Apêl

5. Rhaid i berson sy'n gwneud apêl i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 174(3) o'r Ddeddf Gynllunio neu adran 39(2) o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig yn erbyn hysbysiad gorfodi anfon i'r Cynulliad Cenedlaethol ddatganiad ysgrifenedig—

(a) sy'n nodi'r seiliau y mae'r apêl yn cael ei wneud arnynt; ac

(b) sy'n rhoi yn gryno y ffeithiau y mae'r apelydd yn bwriadu dibynnu arnynt i gefnogi pob un o'r seiliau hynny,

ac os nad anfonir datganiad o'r fath gyda'r apêl, rhaid i'r apelydd ei anfon i'r Cynulliad Cenedlaethol fel y bydd yn cyrraedd y Cynulliad Cenedlaethol nid hwyrach na 14 diwrnod ar ôl y dyddiad y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn anfon at yr apelydd hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny.

Hysbysiad o apêl i'r awdurdod cynllunio lleol

6. Pan gaiff y Cynulliad Cenedlaethol ddatganiad o dan reoliad 5, rhaid iddo hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol yn ysgrifenedig bod apêl wedi'i wneud a rhoi copi o'r apêl a'r datganiad a wnaed o dan reoliad 5 i'r awdurdod cynllunio lleol.

Awdurdod cynllunio lleol i anfon copi o hysbysiad i'r Cynulliad Cenedlaethol

7. Os yw'r awdurdod cynllunio lleol yn cael hysbysiad o dan reoliad 6 bod apêl wedi'i gwneud i'r Cynulliad Cenedlaethol, rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol anfon i'r Cynulliad Cenedlaethol, nid hwyrach na 14 diwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwnnw, gopi ardystiedig o'r hysbysiad gorfodi a rhestr o enwau a chyfeiriadau'r personau y mae copi o'r hysbysiad wedi'i gyflwyno iddynt o dan adran 172(2) o'r Ddeddf Gynllunio neu adran 38(4) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig, yn ôl y digwydd.

Datganiad gan awdurdod cynllunio lleol

8.—(1) Os yw apêl wedi'i wneud i'r Cynulliad Cenedlaethol yn erbyn hysbysiad gorfodi a ddyroddwyd gan awdurdod cynllunio lleol, rhaid i'r awdurdod anfon i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac at unrhyw berson y mae copi o'r hysbysiad gorfodi wedi'i gyflwyno iddo, ddatganiad sy'n dangos y cyflwyniadau y mae'n bwriadu rhoi gerbron ynglŷn â'r apêl, gan gynnwys—

(a) crynodeb o ymateb yr awdurdod i bob sail i'r apêl y mae'r apelydd yn ei wneud; a

(b) datganiad sy'n dweud a fyddai'r awdurdod yn fodlon rhoi caniatâd cynllunio i'r materion yr honnir yn yr hysbysiad gorfodi eu bod yn torri'r rheolaeth gynllunio, neu roi cydsyniad adeilad rhestredig neu gydsyniad ardal gadwraeth i'r gwaith y mae'r hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig neu hysbysiad gorfodi ardal gadwraeth yn berthnasol iddo, yn ôl y